

## EVANS, DAVID TECWYN (1876 - 1957), gweinidog (EF)

**Enw:** David Tecwyn Evans  
**Dyddiad geni:** 1876  
**Dyddiad marw:** 1957  
**Priod:** Nanna Evans (née Stirrup)  
**Rhiant:** Catherine Evans  
**Rhiant:** Evan Evans  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog (EF)  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Gwilym Richard Tilsley

Ganwyd 5 Rhagfyr 1876 yn Aberdeunant Uchaf, Llandecwyn, Meirionnydd, mab Evan a Catherine Evans. Cafodd ei addysg yn ysgol genedlaethol Llandecwyn, ysgol fwrdd Talsarnau (lle bu hefyd yn ddisgybl-athro), Coleg y Brifysgol, Bangor a choleg diwinyddol Didsbury, Manceinion. Dechreuodd bregethu y Sulgwyn 1894 yn 17 oed a daeth i sylw gwlad yn fuan, ac yn 1902 ar ddechrau ei yrfa bu ar daith bregethu yn America ac aeth yno wedyn yn 1913. Bu'n weinidog yn y lleoedd a ganlyn: Aberdyfi 1902, Llanddulas 1904, Y Felinheli 1907, Conwy 1910, Llanrwst 1911, Birkenhead 1914, Wrecsam 1919, Rhyl 1922, Bangor 1925, Llandudno 1928, Tre-garth 1931, Abergele 1936, Aberdyfi 1939. Yn 1941 aeth yn 'uwchrif' gan fyw yn y Rhyl. Yno y bu farw yn 80 oed 27 Hydref 1957. Ei briod oedd Nanna Stirrup o Langefni a fu farw yn 1925. Enillodd radd M.A. Prifysgol Cymru yn 1927 am draethawd ar yr iaith Gymraeg a chafodd radd D.D. (Cymru) er anrhydedd yn 1951. Ef oedd llywydd y Gymanfa Gymreig yn 1929-30 ac o 1936 hyd 1941 bu'n gadeirydd ail dalaith gogledd Cymru.

Yr oedd ' Tecwyn ' yn un o dywysogion mwyaf y pulpud yn ei gyfnod ac yn ei bregethu ceid cyfuniad rhyfedd o ysgolheictod, gwres a dawn llefaru. Yr oedd hefyd yn ddarlithydd poblogaidd ar destunau fel ' Llyfr Job ', ' Llyfr Jona ', ' Y Beibl Cymraeg ', ' Ann Griffiths ', ' Puleston Jones '. Cyhoeddwyd amryw o'r darlithiau hyn yn llyfrynau. Yr oedd yn ddisgybl teyrngar iawn i **John Morris-Jones** a gwnaeth lawer i boblogeiddio'r orgraff newydd mewn darlith a chylchgrawn a thrwy ei lyfr *Yr iaith Gymraeg: ei horgraff a'i chystrawen* (1911) a ail-argraffwyd droeon. Bu'n olygydd *Yr Eurgrawn* am ugain mlynedd (1931-51) a thrwy hwnnw hefyd dysgodd lawer i ysgrifennu Cymraeg cywir.

Lluniodd rai emynau (y mwyaf adnabyddus yw ' Duw a Thad yr holl genhedloedd') a chyfieithodd emynau a cherddi eraill a chyhoeddodd rai ohonynt yn *Bytheiad y nef a chaniadau eraill* (1927). Yr oedd yn gydolygydd *Llestri'r trysor* (1914), ac yn 1920 cyhoeddodd *Iesu hanes*, cyfieithiad o *Jesus of history* (T.R. Glover). Cyhoeddodd esboniad i'r Ysgol Sul ar I Corinthiaid (1926), casgliad o weddiâu (1945), llawer o'i bregethau mewn cyfnodolion a llyfrau, a pheth o hanes ei fywyd yn *Atgofion cynnar* (1950).

### Awdur

Gwilym Richard Tilsley, (1911 - 1997)

### Ffynonellau

*Atgofion Cynnar* (Tywyn 1950) (1950)

*The Minutes of the Annual Conference Methodist Church*, 1958

*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, gaeaf 1976 (rhifyn coffa)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732889

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Tilsley, G. R., (1997). EVANS, DAVID TECWYN (1876 - 1957), gweinidog (EF). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-EVAN-TEC-1876>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddi  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government